**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw**
**a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011 yn Swyddfa Ardal y Cyngor, Abermaw**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Gethin G. Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd R A Williams (Cyngor Tref Abermaw), Y Cynghorydd Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Probert (RNLI), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion).

Sylwebydd Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol - Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen (Arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes), Ioan Thomas (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Y Cyng. Trevor Roberts, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng Peter Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Mr Huw Davies (Prif Beiriannydd – Cyngor Gwynedd).

**Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd o'r cyfarfod, fe aeth yr Is-gadeirydd sef Mr John Probert i'r gadair.**

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2010.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn amodol i'r newidiadau a ganlyn:**

**(a) Eitem 6(i) – Cymhorthion Mordwyo**

**Bod y Swyddog Morwrol wedi dweud fod Tŷ'r Drindod wedi archwilio'r cymhorthion mordwyo ac roeddent wedi nodi fod marc y Glwyd angen gwaith cynnal a chadw ac nad oedd i'r safon ddisgwyliedig.**

**(b) Eitem 6 (vi) – newid y frawddeg "Roedd oddeutu 1,000 o gychod yn harbyrau Gwynedd ond nid oeddynt yn ymweld â Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw" i ddarllen "Roedd y cychod un ai wedi angori yn harbyrau Gwynedd drwy'r flwyddyn, neu roeddent yn ymweld ag amryfal harbyrau eraill. Er hynny, dim ond ychydig oedd yn ymweld â Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw".**

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn Harbwr Abermaw gan gyfeirio yn benodol at yr isod:

(i) **Ffioedd a Thaliadau**

(a) Dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod gwyliau'r Pasg yn hwyr eleni ond oherwydd yr ŵyl banc ychwanegol gan fod y Briodas Frenhinol, fe nodwyd y byddai estyniad i'r cyfnod gwyliau ac fe fydd hyn gobeithio yn dod â mwy o ymwelwyr i'r ardal.

Nodwyd fod y ffioedd a thaliadau drafft wedi eu paratoi ar gyfer eu cymeradwyo gan yr Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol gyda'r bwriad o gynyddu ffioedd a thaliadau'r harbwr ar gyfartaledd o 2% i bob cwch. Roedd yr holl gleientiaid wedi cael gwybod am y newidiadau oedd i ddod, a'r gobaith oedd y byddai'r ffioedd a'r taliadau yn cael eu cadarnhau cyn bo hir.

Nodwyd hefyd fod cynnig wedi ei gyflwyno bod y ffioedd a'r taliadau oedd yn ymwneud â Thollau'r Harbwr a Thollau Angori yn cael eu safoni a bod un ffi sengl yn cael ei gosod ble bynnag oedd prif breswylfa'r un oedd yn dal yr angorfa.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y newidiadau a wnaed gan gyfeirio yn benodol at y daenlen ar y raddfa chwyddiant ar y targed incwm oedd yn dangos chwyddiant o 0.25% yn Harbwr Abermaw am 2011/12. Roedd y raddfa chwyddiant wedi ei seilio ar nifer o ffactorau oedd yn codi a gostwng tu hwn i lefel chwyddiant e.e. trydan, nwy, staff ac ati. Roedd hyn yn golygu y byddai'r targed incwm yn cynyddu ond oherwydd gwerthiant asedau yn ddiweddar yn Abermaw, fel yr unedau yn Aberamffra oedd yn cyfrannu ychydig at gyfanswm yr incwm a grëwyd, roedd y targed incwm cyffredinol wedi gostwng o £51,600 i £46,080. Er hynny, fe fydd cynnydd TAW i 20% yn anffodus yn achosi mwy o gynnydd mewn costau i'r holl ddefnyddwyr ond ni fydd yn cyfrannu tuag at yr incwm cyffredinol a grëwyd yn yr harbwr.

Pwysleisiwyd nad oedd yr Harbyrau llai fel Abermaw ac Aberdyfi wedi cwrdd â'r targed incwm gofynnol am nifer o flynyddoedd ac felly roedd angen cymryd mesurau pellach i sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targed heb beryglu safonau a diogelwch.

Esboniodd y Swyddog Morwrol fod y cynnydd yn y targed incwm cyffredinol i'r Gwasanaeth Morwrol am 2011/12 yn £57,330 oedd yn cynyddu'r targed incwm cyffredinol i'r Gwasanaeth i £2,219,360 yn 2011/12.

Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y ffioedd ar gyfer lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cychod Dŵr Personol oedd wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

(b) Fel mater o ddiddordeb, ac er gwybodaeth, gwnaeth un o'r aelodau oedd hefyd yn glient yn Harbwr Aberdyfi sylw nad oedd cyfieithiad Saesneg o'r gair 'diddymu' ar y cais ffi angori ac nad oedd y bwriad i resymoli'r taliadau a godir ar bobl leol a rhai nad oeddynt yn lleol wedi ei wneud yn glir. Dylai esboniad fod wedi ei anfon gyda'r ffurflen gais.

I ymateb, nododd y Swyddog Morwrol y bydd yn sicrhau y flwyddyn nesaf fod y cyfieithiad yn gyflawn.

(c) Gofynnodd aelod pam y penderfynwyd mynd a'r consesiwn oddi ar y trigolion lleol. Ychwanegodd aelod arall nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi cael consesiwn fel un o'r trigolion lleol yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf. Hefyd, roedd hi'n ymddangos o'r ffigyrau y byddai

preswylydd lleol oedd yn talu £21.51 y metr yn awr yn talu £25.88 h.y. cynnydd o 20% i drigolion lleol a hefyd roedd cynnydd o 10% yn y Tollau Harbwr.

Yn ei ateb dywedodd y Swyddog Morwrol ei bod hi fyny i'r unigolyn i holi am unrhyw gamgymeriad posib yn y gwaith o gyfrif y ffioedd a'r taliadau yn yr Uned Forwrol ac os oedd unrhyw ad-daliad i'w dalu byddai'r Uned Forwrol yn fwy na pharod i'w ad-dalu. Er hynny, roedd y Swyddog Morwrol yn rhyfeddu sut y gallai hyn fod wedi digwydd gan fod yr holl gyfeiriadau ar gyfer ffioedd a thaliadau yn cael eu gwirio yn ofalus iawn.

Ynglŷn â thynnu'r consesiwn i drigolion lleol, roedd nifer o faterion a ellid edrych arnynt fel ystyried cynyddu'r ffioedd i efallai 8% ond penderfynwyd y byddai yn decach i resymoli'r ffi trigolion lleol a thrigolion o'r tu allan drwy gynnydd o 2% er mwyn ceisio cynyddu'r targed incwm. Dywedodd y Swyddog Morwrol ei fod yn gyffredinol yn gynnydd o 2% ond mewn rhai enghreifftiau roedd yn gynnydd o 20% i drigolion lleol.

(d) Dadleuodd aelod y byddai swm penodol ar draws y bwrdd yn hytrach na chanran yn decach ac yn fwy syml.

Roedd y Swyddog Morwrol yn gwerthfawrogi'r sylw fod hyn wedi ei wneud yn unol â pholisi ffioedd a thaliadau'r Cyngor ac roeddent wedi glynu at y rheoliadau.

(e) O ran diddordeb, tynnodd aelod sylw at erthygl yn arweiniad prisiau '*Practical Boatowner'* ble roedd yn dweud mai allan o'r 14 marina yng Nghymru, Pwllheli oedd y drutaf ac o'r 240 marina yn y Deyrnas Gyfunol Pwllheli oedd y 41 mwyaf drud. Dywedodd ymhellach ei bod yn drueni na ellid trosglwyddo'r elw a wnaed i harbyrau eraill fel Aberdyfi ac Abermaw.

Aeth aelod arall ymlaen i ddweud os na fyddai'r Cyngor yn buddsoddi yn yr Harbyrau yna ni fyddent yn gwella dim.

**(ii) Cyllidebau**

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol yr aelodau i gyllidebau Harbyrau Abermaw ac Aberdyfi hyd at dri chwarter y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2010. Tynnwyd sylw'r aelodau i'r targed incwm o ran Abermaw am 2010/11 oedd yn £46,100 a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd i ddiwedd Rhagfyr 2010 yn £32,569 oedd yn gadael diffyg incwm o £13,531. Nid oedd y Swyddog Morwrol yn rhagweld y byddai swm sylweddol o incwm yn cael ei greu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol ac fe ragwelwyd y bydd y gwariant cyffredinol oddeutu £7,000 uwchben y targed angenrheidiol. Pwysleisiwyd fod y cyfanswm cyffredinol yn cynnwys arbediad o fod wedi lleihau'r lefel staffio dros y gaeaf.

Fodd bynnag, o'i gymharu, mae'r targed incwm i Aberdyfi am yr un cyfnod yn £39,270 ac mae cyfanswm o £31,003 wedi ei gyrraedd gan adael diffyg yn Aberdyfi o £7,100. Er hynny, disgwylir y bydd arbediad o tua £14,000 yn y gyllideb wariant a fydd yn ei dro yn dangos tan wariant cyffredinol o tua £7,000 yn Aberdyfi fydd yn cael ei osod yn erbyn y diffyg yn Harbwr Abermaw.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol bwysigrwydd ceisio cynnal y lefel bresennol o wasanaeth yn enwedig o gofio am yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd yn heriol iawn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig i ddod o hyd i ragor o arbedion.

**(iii) Mordwyo**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod mwyafrif y cymhorthion mordwyo wedi aros yn eu lle drwy fisoedd y gaeaf.

Er hynny, nodwyd fod Golau'r Glwyd yn parhau i achosi pryder i aelodau yn enwedig o gofio fod golau'r glwyd wedi ei dynnu ychydig wythnosau yn ôl gan gontractwr. Roedd y Swyddog Morwrol wedi cynnal ymholiadau dechreuol am y gost o newid y Glwyd a byddai hyn oddeutu £12-20,000. Er hynny, fel cam dros dro roedd bwi wedi ei osod yn ei le yn y Sianel i ddangos y lleoliad a ffafrir i'r sianel. Er bod yr Aelodau o'r farn y byddai yn well ganddynt gael cymhorthydd yn union yr un fath yn ei le, mae lleoliad marc y glwyd yn gofyn cael contractwr arbenigol yn rhan o'r gwaith dylunio a'r gwaith o leoli'r Glwyd. Nodwyd ymhellach gan y Swyddog Morwrol er na fyddai Bwi Mordwyo dros dro yn dangos union leoliad y rhwystr bydd y Cymhorthydd Mordwyo sy'n arnofio, gyda llusern ac adlewyrchydd radar, yn sicrhau fod cychod sy'n mordwyo yn y sianel yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o'r rhwystr. Nid oedd y Swyddog Morwrol yn rhagweld y byddai Golau'r Glwyd yn ôl yn ei le yn ystod y tymor yma ond rhoddwyd sicrwydd y byddai staff yn monitro effeithlonrwydd y bwi mordwyo dros dro gan drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod mis Hydref ac a ddylid adfer Golau'r Glwyd un ai fel marc Port neu Marc perygl unig. Er y gwerthfawrogwyd y gellid gweld Golau'r Glwyd o bell fel roedd cychod yn mordwyo i'r sianel a bod yr RNLI efallai yn gallu lleoli'r golau ar radar, dywedwyd mai diben bwi'r sianel fordwyo oedd dangos mynediad i sianel yr Harbwr ac roedd morwyr wedyn yn gallu nodi'r bwiau mordwyo ar hyd y ffordd i'r Harbwr. Efallai bod ychydig o risg i gychod llai oedd ddim yn mordwyo i'r sianel ac felly roedd angen gosod bwi ychwanegol i farcio'r rhwystr. Er hynny, bydd y Swyddog Morwrol yn dibynnu ar farn yr aelodau hynny sy'n defnyddio'r sianel a'r Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau cyn dod i benderfyniad.

Wrth ymateb gofynnodd yr aelodau gwestiynau gan wneud y pwyntiau a ganlyn:

(a) Pam nad oedd hi'n bosib rhoi polyn pren arall tebyg yn lle'r Glwyd fel yr un oedd wedi bod yno am dros gan mlynedd?

(b) Beth oedd y ddyletswydd statudol a'r cyfrifoldeb am y Glwyd? Deallwyd fod Tŷ'r Drindod yn gyfrifol fel yr Awdurdod Goleudai a'r Cyngor fel yr Awdurdod Goleudai lleol ac nad oedd gan yr awdurdod yr hawl i newid nodweddion natur y goleuadau heb ganiatâd gan Dŷ'r Drindod. Roedd y golau mordwyo i fod 3 metr o uchder gyda gwelededd o 5 milltir ac yn yr amgylchiadau yma nid oedd y bwi mordwyo dros dro yn cydymffurfio gyda'r gofynion yma ac felly roedd yr awdurdod yn torri'r hawliau statudol ac felly yn esgeulus gan na fydd cychod sy'n dod o'r môr yn ymwybodol o'r rhwystr. Nodwyd ymhellach nad oedd y Glwyd wedi ei chynnal a'i chadw am sawl gaeaf ac roedd yn rhaid ei symud cyn iddi gwympo.

(c) Roedd siartiau'r 20/30 mlynedd diwethaf wedi dangos Golau'r Glwyd ac nid oeddent wedi eu diweddaru.

(d) Bod yr asesiadau risg a wnaed ar gyfer Ras y Tri Chopa ddim yn hapus o gwbl gyda'r cymhorthydd mordwyo dros dro oherwydd nad oedd wedi ei bennu ar y Siart.

(e) Teimlai rai aelodau fod y swm o arian oedd ei angen i roi cymhorthydd mordwyo yn lle golau'r Glwyd yn ychydig o'i gymharu gyda cholli refeniw i'r Harbwr gan fod cychod ddim yn gallu mordwyo i'r Harbwr gyda'r nos mewn amodau anodd pan roeddent yn dibynnu ar olau mordwyo.

(f) Mynegwyd pryder am gychod yn taro'r creigiau a'r consensws oedd y dylid adfer Golau'r Glwyd yn ôl i'w le.

(g) Os oedd yr Uned Forwrol yn gallu dangos ei bod angen £20,000 i newid Golau'r Glwyd yna gallai'r Swyddog Morwrol wneud cais i'r Arweinydd Portffolio am arian, oherwydd gallai peidio gwario'r swm yma o arian olygu bod yr awdurdod yn derbyn hawliadau cyfreithiol llawer mwy. Byddai yn briodol i wneud cynnig o'r fath pe byddai gan y Pwyllgor yma'r grym i wneud hynny.

**(i)** Ymatebodd y Swyddog Morwrol drwy ddweud fod y cymhorthion mordwyo wedi eu harchwilio gan Dy'r Drindod. Roedd hi'n ofynnol fod y cymhorthion mordwyo mewn cyflwr derbyniol ond nid oedd y Swyddog Morwrol wedi gweld deddfwriaeth statudol yn mynnu bod yn rhaid i'r Gwasanaeth Morwrol roi Golau'r Glwyd gwreiddiol yn ôl yn ei le, a gan fod y sianel wedi ei marcio gyda chymhorthion mordwyo amgen derbyniol oedd yn fwy diogel i gychod, roedd y swyddog o'r farn fod yr awdurdod wedi cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau. Mae Golau'r glwyd yn Abermaw yn gymorth mordwyo unigryw a phan fydd contractwyr yn asesu'r gwaith byddant hefyd yn asesu'r risg o roi rhywbeth yn ei le. Ynglŷn â rhoi polyn pren yn lle'r Glwyd, ni fedrai'r awdurdod gymryd y risg o fynd yn erbyn y cyngor a roddwyd gan beirianwyr arbenigol. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol mai ef fel swyddog fyddai'n gyfrifol pe byddai unrhyw beth yn mynd o'i le a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau ei fod yn hyderus gyda safon y mesurau dros dro oedd wedi eu cymryd. Roedd y Swyddog Morwrol yn fwy na bodlon i drafod y mater ymhellach ac i glywed barn yr aelodau am hyn yn y Pwyllgor Harbwr nesaf.

Ail-ddywedodd y Swyddog Morwrol Habyrau fod golau'r Glwyd wedi dirywio dros amser ac er ei fod yn sylweddoli fod y creigiau yn berygl ni ddylent achosi unrhyw broblem i forwyr medrus. Ar y llaw arall gallai fod yn broblem i feiciau dŵr a chychod llai oedd yn mordwyo yn yr ardal yma. Cytunodd aelod gyda'r Swyddog Morwrol fod y mesur dros dro yn ddigonol am y tro ond os oedd arian ar gael i newid Golau'r glwyd mai dyma fyddai'r opsiwn gorau. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol yr angen i sicrhau y dylai cychod ond fynd i'r Harbwr pan roedd y tywydd a'r llanw yn addas. Dywedodd hefyd gan fod yr awdurdod wedi anfon hysbysiadau yn rhybuddio morwyr ac i Dŷ'r Drindod a'u bod wedi cymryd mesurau dros dro i sicrhau diogelwch morwyr; roedd yr awdurdod am y tro wedi cymryd y camau angenrheidiol i ddarparu cymhorthion mordwyo addas yn Abermaw.

Pan fydd siartiau yn cael eu hanfon i'r Morlys byddant yn cael eu dychwelyd wedi eu diweddaru gan ddangos y bwi mordwyo dros dro. Nodwyd ymhellach fod goleuadau fel Ynys Enlli, Sant Tudwal, Ynys Lawd yn amodol i ymgynghoriadau cyhoeddus ond nid oedd hyn yn wir am oleuadau mordwyo ac roeddent yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Harbwr Lleol os oedd angen gwneud unrhyw newidiadau iddynt.

Mewn ymateb i'r sylw a wnaed nad oedd cofnodion y Pwyllgor hwn yn cael eu craffu, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol fod trefniadau mewn llaw i ystyried cyflwyno'r cofnodion i'r Pwyllgor Craffu priodol maes o law.

I gloi, nododd y Swyddog Morwrol yr holl bwyntiau a wnaed a sicrhaodd yr aelodau y byddai'r ddau swyddog harbwr oedd yn y cyfarfod hefyd yn sicrhau eu bod yn glynu at y ceisiadau a wnaed. Dywedwyd eto mai'r bwriad oedd adleoli Golau'r Glwyd maes o law pan roedd cyllid ar gael.

**(ii)** Mynegodd y Swyddog Morwrol pryder am golli marcwyr parth traeth ond roedd yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad y meysydd carafanau yn enwedig Caerddaniel. Yn yr ardal yma roedd 37 o fwiau melyn marcio parth y traeth a 317 metr o gadwyn a 25 angor wedi eu colli ac ni fedrai'r awdurdod fforddio colli hyn yn flynyddol am gost o £3,200.

I ymateb, dywedodd un neu ddau o'r aelodau eu bod wedi gweld bwiau ac angorau oedd wedi eu golchi ar y traethau.

Gan gynrychiolydd Harbwr Aberdyfi fod y mater yma wedi cael ei dynnu i sylw aelodau Harbwr Aberdyfi a chynigwyd ateb syml sef gosod cadwyn ddaear gydag angor ar bob pen gyda'r bwiau i fyny ar godwyr.

Dywedodd y Swyddog Morwrol fod yr achos yn wahanol yn Aberdyfi gan ei bod yn ymddangos fod y bwiau marcwyr traeth yn cael eu cymryd yn fwriadol o Abermaw ac fe hysbyswyd yr

aelodau os oeddent yn gweld rhai ar y lan ar hyd yr arfordir iddynt gysylltu â'r Harbwr Feistr gyda'r wybodaeth yma.

Awgrymodd aelod y dylid cysylltu â'r uned Gofal Cwsmer gyda'r bwriad o wneud apêl i'r cyhoedd i gysylltu â'r Harbwr Feistr os oeddent yn dod o hyd i unrhyw gymhorthion mordwyo ar hyd glannau'r arfordir.

**(iv) Staffio**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod swydd y Cymhorthydd Harbwr ar gyfer y tymor oedd i ddod, wedi ei hysbysebu a'r gobaith oedd y byddai cyfweliadau yn cael eu cynnal maes o law a bydd yr unigolyn a benodir yn ei swydd o'r 7 Ebrill hyd 30 Medi 2011. Byddai'r swydd yn parhau i fod yn amodol i adolygiad oherwydd y gostyngiadau mewn arian oedd ar gael i'r awdurdodau lleol ac roedd hi'n hanfodol fod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn dangos fod angen swydd y Cymhorthydd Harbwr yn Abermaw ac Aberdyfi drwy'r flwyddyn.

Rhagdybiwyd y byddai 3 neu efallai 4 swyddog traeth yn cael eu penodi i reoli traeth Gwobr y Faner Las yn Abermaw. Bydd un Swyddog Traeth yn cael ei b/phenodi i Draeth Baner Las yn Fairbourne.

**(v) Gwobr Traeth**

Roedd y Swyddog Morwrol wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth y Faner Las o safbwynt traeth Abermaw yn 2011. Llwyddodd canlyniadau'r dŵr ymdrochi i gyrraedd y safon ofynnol ond atgoffwyd yr aelodau fod anghysonderau gyda chanlyniadau'r llynedd. Trafodwyd y rhain gyda'r swyddog priodol ac oherwydd y ffaith fod y canlyniadau yn eithaf cyson hyd yma nid oed dyn rhagweld y byddai problem eleni. Byddai canllawiau newydd yn dod i rym yn 2015 ble bydd y canlyniadau yn cael eu seilio ar wiriad bob 4 blynedd er hynny rhagwelwyd y byddai dŵr ymdrochi Abermaw yn ardderchog erbyn 2015.

Er hynny, roedd y sefyllfa yn wahanol yn Aberdyfi ac fe wahoddwyd cynrychiolydd o Asiantaeth yr Amgylchedd i bwyllgor Harbwr Aberdyfi i esbonio i'r aelodau beth oedd y drefn a ddilynwyd wrth brofi'r dŵr.

**(vi) MATERION CYFFREDINOL**

**(a) Consesiwn Traeth**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod ceisiadau ar gyfer consesiynau traeth yn parhau yn flynyddol ac er nad oedd unrhyw gais wedi ei dderbyn hyd yma rhagwelwyd y byddai cais newydd yn cael ei gyflwyno am gonsesiwn i weithredu gweithgareddau hamdden a reidiau mulod ar y traeth.

**(b) Motocross**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod y digwyddiad motocross wedi bod yn llwyddiant y llynedd er hynny, roedd y cyhoedd wedi codi pryder am y niwed a achoswyd i ran o'r traeth. Ar ôl y digwyddiad roedd hi'n ymddangos fod y tywod yn mynd yn arbennig o feddal oedd yn gallu achosi trafferthion i rai oedd yn cerdded ar y traeth. Os oedd y digwyddiad i barhau eto eleni bydd angen i'r trefnwyr sicrhau na fyddant yn niweidio'r traeth yn enwedig gan fod rhan o'r cwrs motorcross mewn ardal gadwraeth ble roedd angen caniatâd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer ei ddefnyddio.

Pwysleisiwyd hefyd nad oedd y trefnwyr i fynd ar y traeth gydag offer heb ganiatâd a phresenoldeb yr Harbwr Feistr.

**(c) Ardal y Lloc**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod yr ardal uchod yn dal i achosi pryder oherwydd ei bod yn cael ei defnyddio i gael gwared â dodrefn tŷ diangen. Roedd yr Uned Forwrol wedi symud sawl tunnell o ddeunyddiau o'r lloc am gost o £600 am hurio'r sgip a threth tirlenwi. Roedd mesurau diogeledd pellach yn cael eu hystyried ac er y byddai cloi'r rhwystr diogelwch yn achosi anhwylustod byddai yn atal pobl rhag ceisio cael gwared â gwastraff yn anghyfreithlon.

**(d) Lloches Cyhoeddus**

Roedd yr Uned Forwrol wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Uned Eiddo i gomisiynu contractwr cymwys addas i ddymchwel y lloches a rhagwelwyd y byddai'r gwaith wedi ei orffen cyn gwyliau'r Pasg.

Awgrymwyd fod mainc a/neu welyau blodau yn cael eu rhoi yn ei le.

Awgrymodd aelod ymhellach y gellid hysbysebu'r tir i'w ddefnyddio fel llain i'w rentu i gaban gwerthu fel modd o gael refeniw. I ateb, dywedodd y Swyddog Morwrol y galli hyn fod yn gystadleuaeth i fusnesau adwerthu eraill yn y dref ac ar y promenâd ond efallai yr hoffai Cyngor y Dref ymchwilio i'r mater ymhellach yn y lle cyntaf.

**(e) Pwyntiau Trydan ar y cei**

Adroddodd y Swyddog Morwrol fod y pwyntiau cyflenwad trydan ar y cei wedi eu harchwilio a'r bwriad oedd adnewyddu'r pwyntiau cyflenwi gan y gwasanaeth ond oherwydd y costau uchel a'r defnydd cyfyngedig roedd hi'n amheus os oedd angen eu hadnewyddu i gyd. Er hynny, fe fyddai yn rhaid ceisio'r gyllideb i'w hadfer o feysydd gwaith eraill yn y gwasanaeth gan nad oedd cyllideb yn yr Harbwr i wneud hyn.

**(f) Cerflun yn Ynys y Brawd**

Dywedodd y Swyddog Morwrol fod Ynys y Brawd wedi ei phennu yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac ar ôl trafodaethau hirfaith gyda Cyngor Cefn Gwlad Cymru am godi cerflun yn ddienw yn Ynys y Brawd penderfynwyd y gellid caniatáu i'r cerflun presennol aros ar yr amod nad oedd rhagor o gerfluniau yn ymddangos ar y safle.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**<u>MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL</u>**

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) **Lleoliad tapiau**

Holwyd os gellid gosod y tapiau ar ben y llithrfa.

Yn ei ateb dywedodd y Swyddog Morwrol na ellid newid lleoliad y tapiau ond fe fyddent yn cael eu hadnewyddu ar ôl archwiliad gan yr Harbwr Feistr. Nodwyd ymhellach gan yr Harbwr Feistr fod tap wedi ei osod gan y Clwb Hwylio ond nid oedd wedi para wythnos.

**Penderfynwyd:** **Nodi'r uchod.**

(3) **Ffendrau i'r ysgolion**

(a) Roedd aelodau yn bryderus am y ffendrau ar yr ysgolion oedd wir angen eu newid ac roeddent yn awyddus i wybod pryd y byddai'r gwaith yma yn cael ei wneud.

(b) Dywedodd y Swyddog Morwrol eu bod wedi cael un pris ac roeddent yn aros am un arall. Ychwanegodd ei bod yn hawdd iawn gofyn am fân newidiadau yn yr harbwr ond roedd yn rhaid i'r aelodau sylweddoli bod eu cost yn sylweddol. Er hynny, roedd yn ymwybodol iawn o'r risg i ddiogelwch unigolion drwy beidio adnewyddu'r ysgolion a chyn gynted ag y byddent wedi derbyn pris arall gellid awdurdodi'r gwaith ar unwaith.

(c) Roedd yr Harbwr Feistr wedi trafod y posibiliadau gyda chontractwr cymwys ac fe adnabuwyd ffender ysgol ble roedd yr ysgol ei hun yn gweithredu fel ffender ac roedd wedi ei llunio o rwber wedi ei galedu.

(d) Dywedodd aelod fod materion o'r fath yn dod i'r cyfarfod yma dro ar ôl tro, ac er ei fod yn gwerthfawrogi bod cost ariannol roedd yr ysgolion yn beryglus ar ddiwedd y tymor diwethaf.

(e) Nododd y Swyddog Morwrol y pwynt a wnaed ond apeliodd ar yr aelodau os oedd ganddynt bryderon tebyg yn y dyfodol eu bod yn cysylltu â'r Harbwr Feistr a staff fel eu bod yn gallu gweithredu ar unwaith.

**Penderfynwyd:** **Nodi'r materion uchod.**

(5) **Mynedfa Ochr yr Harbwr**

(a) Mynegwyd pryder gan yr aelodau ei bod yn anodd llwytho cychod ysgafn yn awr oherwydd y bolardiau a bod cychod yn cael eu cadw yn yr ardal yma. Gofynnwyd a fyddai'n bosib defnyddio'r ardal ger y byrddau picnic. Ychwanegwyd ymhellach ei bod yn ymddangos fod beiciau modur yn parcio ger y bolardiau.

(b) I ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol na fyddai'r Uned Forwrol yn hapus gyda'r trefniant yma er mwyn peidio achosi mwy o ddifrod i'r cei. Roedd y byrddau picnic wedi eu gosod er mwyn cyfyngu'r defnydd o'r ardal yma. Teimlwyd fod angen cyfyngu defnydd yr harbwr i un ardal oherwydd y cyfyngiadau ariannol i osgoi gorfod atgyweirio gwahanol leoliadau yn yr Harbwr yn ddyddiol. Os oedd adegau argyfwng pan fyddai angen defnyddio'r ardal yma yna byddai'r Harbwr Feistr yn fwy na pharod i helpu cleientiaid yn y tymor byr.

(c) Mynegwyd pryder ymhellach am gyflwr gwaelod y llithrfa a chredwyd fod y Cynghorydd Trevor Roberts yn cyfarfod ar y safle gyda'r Cynghorydd Dewi Lewis, Uwch Arweinydd Portffolio i ymchwilio'r cyflwr.

(d) I ymateb dywedodd y Swyddog Morwrol fod y llithrfa mewn cyflwr perffaith a bod problemau yn codi oherwydd newidiadau i wyneb gwely'r môr. Nid oedd yr Uned Forwrol mewn sefyllfa i gludo deunyddiau i'r ardal yma.

(e) Dywedodd aelod ymhellach fod ysgrifennydd y Clwb Hwylio wedi ysgrifennu at y Swyddog Morwrol ac roedd wedi dweud nad oedd yr awdurdod yn gyfrifol am y tywod yng ngwaelod y llithrfa ac roedd yr aelod o'r farn felly nad oedd yr awdurdod yn gyfrifol am weddill yr harbwr.

Dywedwyd hefyd nad oedd y Swyddog Morwrol yn rhagweld y byddai unrhyw broblem gyda lansio i lawr y llithrfa ar benllanw.

Er hynny, dywedodd y swyddog ymhellach fod cychod mwy yn lansio ar ddistyll er mwyn cadw'r llithrfa yn glir yn ystod y cyfnod penllanw ac roeddent yn parcio ar y traeth i adael i'r llawn ddod i fyny.

(f) Roedd aelod arall o'r farn fod lansio cychod yn llawer mwy cyfleus a diogel yn awr nag yn y blynyddoedd a fu. Nid oedd morwyr yn cael problemau ac eithrio i gael yr ôl-gerbydau yn ôl o'r traeth oherwydd bod pantiau mawr ar waelod y llithrfa.

**Penderfynwyd: (a) Nodi'r uchod hyd nes fo barn y Cynghorwyr Trevor Roberts a Dewi Lewis yn wybyddus ar ôl iddynt archwilio'r llithrfa.**

**(b) Fod yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Harbwr yn ymgynghori gyda chontractwr yr harbwr i geisio ei farn am unrhyw broblemau roedd wedi dod ar eu traws.**

(6) **Pryderon Amgylcheddol**

(a) Dywedodd aelod fod y Clwb Hwylio wedi derbyn adroddiad ar ddadansoddiad y tywod yn yr harbwr ond nid oedd yn addas gan mai ei ddyddiad oedd 2007 ac nid oedd yn nodi ble oedd y pwynt samplo ac nid oedd unrhyw sôn ynddo am y dull a beth a gasglwyd. Mewn gwirionedd roedd yn sampl o'r pridd ac nid oedd yn datgan fod y tywod o'r Harbwr wedi ei halogi yn fwy nag unrhyw dywod arall. Gofynnwyd bod sampl mwy diweddar o'r tywod yn yr Harbwr yn cael ei gymryd.

(b) Ymatebodd y Swyddog Morwrol i'r uchod drwy ddweud y byddai cymryd rhagor o samplau yn ddiangen yn ffordd amhriodol o ddefnyddio cyllid. Gofynnodd y Swyddog Morwrol fod yr arbenigwr cymwys yn y Clwb Hwylio yn cyflwyno'r adroddiad gwyddonol i'r Cyngor gan ddangos y rhesymau pam fod y dadansoddiad yn anghywir.

**Penderfynwyd: Nodi'r uchod.**

(7) **Cyhoeddiad diweddar am fuddsoddiad enfawr o rai miliynau ym Mhwllheli a sut y gallai Harbyrau Abermaw ac Aberdyfi fanteisio o ganlyniad i'r buddsoddiad yma.**

(a) Datganodd aelod er ei fod yn croesawu'r buddsoddiad o £7m yng Ngwynedd roedd o'r farn y dylai harbyrau eraill fel Aberdyfi ac Abermaw gael mantais o hyn.

Gwnaed awgrymiadau gan amryfal aelodau fel:

- Paratoi a gosod map yn Harbwr Pwllheli o'r amseroedd hwylio i Aberdyfi ac Abermaw ynghyd â rhestrau o dai bwyta da, siopau, gwasanaeth rheilffordd ac ati a fedrai annog ymwelwyr i ymweld â'r ddau harbwr yma.
- Dylai Gyngor Gwynedd roi pwysau ar y Cynulliad i gael stondinau hyrwyddo mewn sioeau Carfan a Chychod i farchnata Cymru a'i marinas ac ati i helpu busnesau lleol ac i greu cyflogaeth.
- Roedd hi'n ymddangos fod yna barodrwydd ar ran y Cyngor i ymgymryd â gwaith yn Harbwr Pwllheli fel cael mynediad iddo, ac fe hoffai'r aelodau i'r un parodrwydd fod yn wir yn yr harbyrau eraill.

(b) Nododd y Swyddog Morwrol yr uchod a chadarnhaodd y bydd y pecyn croeso i ymwelwyr yn parhau eleni a byddai'r Uned Forwrol yn edrych ar y posibilrwydd o weithio yn agosach gyda'r Uned Dwristiaeth ynglŷn â sut i wella marchnata'r Harbyrau.

Er hynny, pwysleisiwyd er nad oedd y buddsoddiad wedi ei dargedu yn uniongyrchol i Harbyrau eraill roedd yn fuddsoddiad i Wynedd gyfan a dylid dathlu fod Pwllheli wedi ei ddewis fel un o'r harbyrau gorau i gynnal digwyddiadau hwylio cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd y buddsoddiad i ddatblygu academi hwylio ac nid ar gyfer cynyddu angorfeydd ac ati. Er na fydd y digwyddiadau yn cael eu cynnal mewn harbyrau eraill fel Abermaw ac Aberdyfi rhagwelwyd drwy weithio gydag eraill fel Network Rail y byddai teuluoedd yn dymuno ymweld â harbyrau eraill.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r sylwadau a wnaed ynghyd ag atebion y swyddogion perthnasol i'r rhain.**

## 8. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

Adroddwyd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal ar 4 Hydref 2011.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

**<u>CADEIRYDD</u>**